CYFRES FRIFFIO SEITHFED SENEDD

ADSS Cymru
Yn arwain Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru
Leading Social Services in Wales

# NODYN BRIFFIO 6: Gwella Mesurau Diogelu ar gyfer Plant sy'n Derbyn Addysg Ddewisol yn y Cartref yng Nghymru

**Y cais: Rhaid gweithredu mesurau diogelwch cryfach yn effeithiol ar gyfer plant sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref yng Nghymru, gan gynnwys y gofrestr o blant nad ydynt yn yr ysgol y mae bellach deddfwriaeth ar ei chyfer yn Neddf Llesiant Plant ac Ysgolion 2026, er mwyn sicrhau gwell goruchwyliaeth a diogelwch cyhoeddus.**

Mae nifer y plant sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol ers COVID-19 ac mae'n parhau i gynyddu. Mae'r plant hyn yn haeddu'r un sicrwydd o ddiogelwch a gweledeedd â phlant yn yr ysgol. Mae ADSS Cymru yn cydnabod y cynnydd gwirioneddol a wnaed drwy ganllawiau statudol (Mai 2023) ac yn gwerthfawrogi ymrwymiad swyddogion sydd wedi gweithio ar y mater cymhleth hwn dros nifer o flynyddoedd.

Mae'r tymor Senedd newydd yn cynnig cyfle newydd i lywodraeth newydd Cymru ac i aelodau o bob plaid symud hyn ymlaen gyda'i gilydd. Deddf Llesiant Plant ac Ysgolion 2026, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2026, yw Deddf Seneddol y DU sy'n ymestyn i Gymru a Lloegr ac mae'n cyflwyno cofrestru gorfodol ar gyfer plant nad ydynt yn yr ysgol. Mae ADSS Cymru bellach yn ceisio cael sgwrs adeiladol, drawsbleidiol ynghylch sut mae'r mesurau diogelwch newydd hyn yn cael eu gweithredu'n effeithiol yng nghyd-destun Cymru.

## Darlun o'r Data

Yn 2024–25, roedd yn hysbys bod 7,176 o blant yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref yng Nghymru, cyfradd o 15.3 fesul 1,000 o ddisgyblion, i fyny o 1.6 fesul 1,000 yn 2009–10. Dyblodd y niferoedd rhwng 2018–19 a 2022–23 ac maent wedi parhau i gynyddu bob blwyddyn ers hynny, gyda COVID-19 yn ffactor sylweddol gan nad oedd rhai teuluoedd a oedd yn addysgu eu plant yn y cartref pan oedd ysgolion ar gau wedi dychwelyd eu plant i'r ysgol. Yn hollbwysig, mae'r ffigurau hyn yn cynnwys plant sy'n hysbys i awdurdodau lleol yn unig. Yn 2017, nid oedd unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru yn hyderus bod ffigurau swyddogol yn cynrychioli pob plentyn sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref yn ei ardal. Gall plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref o'u genedigaeth ac nad ydynt erioed wedi'u cofrestru yn yr ysgol fod yn gwbl anhysbys i unrhyw wasanaeth cyhoeddus.

Mae dau batrwm yn y data yn haeddu sylw arbennig. Mae cyfradd y plant 16 oed sy'n cael eu haddysgu yn y cartref wedi cynyddu i 27 gwaith ffigur 2009–10, sy'n awgrymu bod nifer sylweddol o bobl yn tynnu'n ôl ar adeg cyrraedd cymwysterau statudol. Mae plant ag anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi'u cynrychioli'n anghymesur: cyfradd y plant sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref sydd ag unrhyw ddarpariaeth ADY yw 47.8 fesul 1,000 o ddisgyblion, o'i chymharu â 5.8 fesul 1,000 yn gyffredinol. Mae'r rhain ymhlith y plant mwyaf agored i niwed yng Nghymru a gall eu hanghenion cymhleth fynd heb eu diwallu pan fyddant y tu allan i'r system ysgolion a thu hwnt i gyswllt proffesiynol rheolaidd.

## Cyd-destun Hanesyddol

Rhoddwyd hwb brys i'r ddadl bolisi ynghylch mesurau diogelwch ar gyfer plant sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref yng Nghymru gan farwolaeth Dylan Seabridge, yn wyth oed, yn Sir Benfro ym mis Rhagfyr 2011. Nid oedd Dylan wedi cael ei weld gan unrhyw weithiwr proffesiynol ers ei blentyndod cynnar. Roedd ei rieni wedi dewis peidio â'i anfon i'r ysgol ac wedi gwrthod mynediad i swyddogion lles addysg i'r cartref ac at Dylan, fel y caniatawyd gan y gyfraith. Canfu adolygiad ymarfer plant ei fod wedi dod yn anweledig.

Ysgogwyd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol gan yr achos hwn i gomisiynu adolygiad tystiolaeth CASCADE, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2017, a archwiliodd 11 o adolygiadau ymarfer plant ac achosion difrifol lle'r oedd addysgu yn y cartref yn nodwedd. Canfu nad yw addysgu yn y cartref ynddo'i hun yn ffactor risg ond, lle mae plant yn cael eu cam-drin, gall wneud adnabod hynny'n sylweddol anoddach. Gwnaed pedwar argymhelliad: gwasanaeth cymorth llawer gwell i blant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref gyda dyletswyddau clir gan awdurdodau lleol a chyllid fesul disgybl; cofrestr statudol gydag asesiadau cyfannol rheolaidd yng nghartref y plentyn, gyda chofrestru ac asesu ill dau yn ofynion cyfreithiol ar rieni; ymateb diogelu gwell lle nodir pryderon, gydag unigolion wedi'u henwi ym mhob awdurdod lleol; a dyletswydd ar Estyn i arolygu digonolrwydd darpariaeth awdurdodau lleol ar gyfer plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref. Roedd yr adroddiad yn glir ei bod yn annhebygol y byddai cynllun gwirfoddol ar ei ben ei hun wedi amddiffyn Dylan Seabridge.

Nid yw'r pryder wedi'i gyfyngu i Gymru. Yn fwy diweddar yn Lloegr, roedd marwolaeth Sara Sharif yn 2023 – merch deg oed a dynnwyd o'r ysgol i gael ei haddysgu gartref ac a oedd wedi bod yn hysbys i wasanaethau amddiffyn plant yn gynharach yn ei bywyd – unwaith eto yn tynnu sylw at y risgiau sy'n codi pan gaiff plentyn ei dynnu o gyswllt rheolaidd â gweithwyr proffesiynol. Cyhoeddwyd yr adolygiad annibynnol i'w marwolaeth ym mis Tachwedd 2025 ac mae'r mesurau ar gyfer plant nad ydynt yn yr ysgol yn Neddf 2026 wedi'u datblygu, yn rhannol, er cof amdani.

## Comisiynydd Plant Cymru

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn cefnogi hawl teuluoedd i addysgu plant yn y cartref ond mae wedi dadlau'n gyson nad yw'r systemau presennol yn amddiffyn hawliau plant yn llawn. Mae'r comisiynydd wedi mynegi tri phrawf y mae'n rhaid i bolisi Llywodraeth Cymru eu bodloni: mae pob plentyn yn hysbys ac nid yn anweledig i wasanaethau; mae pob plentyn yn derbyn addysg addas a chynhelir ei hawliau ehangach; a chaiff pob plentyn ei weld a'i glywed. Mewn adolygiad yn 2021, canfu'r comisiynydd na fyddai cynigion blaenorol yn bodloni'r profion hyn yn llawn a bod y fframwaith presennol yn annigonol. Mae'r comisiynydd wedi cefnogi deddfwriaeth sylfaenol mewn egwyddor ac, er yn croesawu canllawiau statudol 2023, mae wedi galw am werthusiad ffurfiol o'i heffaith.

## Y Sefyllfa Bresennol

Cyhoeddodd llywodraeth flaenorol Cymru ganllawiau statudol ar addysg ddewisol yn y cartref ym mis Mai 2023, sef gwelliant ar yr hyn a'u rhagflaenodd: wedi'u huwchraddio o fod yn anstatudol, yn fwy rhagnodol yn eu disgwyliadau o awdurdodau lleol, ac yn gliriach ar rannu gwybodaeth a gweld plant. Mae ADSS Cymru yn deall cyd-destun COVID-19 pan benderfynwyd peidio â deddfu. Fodd bynnag, nid oedd y canllawiau yn cynnwys gofyniad i gyflwyno cofrestr orfodol, ni roddwyd yr hawl gyfreithiol i awdurdodau lleol weld plentyn na mynd i mewn i gartref, ac roeddent yn cadw hawl rhieni i wrthod cyfarfodydd am gyfnod amhenodol. Roedd cyfyngiadau bob amser ar yr hyn y gallai canllawiau, yn hytrach na deddfwriaeth sylfaenol, ei gyflawni: ni ellir datrys yr her graidd a nodwyd gan CASCADE – bod rhai plant, i bob pwrpas, yn anweledig – drwy ganllawiau yn unig.

Mae'r darlun hwn wedi newid nawr. Dechreuodd Deddf Llesiant Plant ac Ysgolion 2026 fel Bil i Loegr yn unig; daethpwyd â darpariaethau penodol i Gymru drwy welliannau o fis Mawrth 2025 ymlaen, pob un yn gofyn am gydsyniad y Senedd. Nid dull gweithredu cyffredinol a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru ond gofynnwyd am y darpariaethau hynny sy'n cyd-fynd ag amcanion polisi Cymru ei hun yn unig – rhai i gau bylchau presennol mewn deddfwriaeth, eraill i fynd i'r afael â materion polisi hirhoedlog. Mae'r darpariaethau sy'n ymestyn i Gymru yn cwmpasu plant nad ydynt yn yr ysgol, cyflogaeth plant, cam-drin ac esgeuluso yn fwriadol plant dan 18 oed, plant mewn llety dros dro, a hysbysiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Ar gyfer addysg ddewisol yn y cartref, maent yn adeiladu ar Ddeddf Addysg 1996, sy'n berthnasol ledled Cymru a Lloegr. Roedd y dull yn seiliedig ar dystiolaeth a ddatblygwyd yn sylweddol yng Nghymru, yn dilyn achos Seabridge.

I blant nad ydynt yn yr ysgol, mae'r mesurau newydd yn cynnwys dyletswydd ar awdurdodau lleol i sefydlu a chynnal cofrestr; dyletswydd ar rieni a gofalwyr i ddarparu gwybodaeth ar ei chyfer; dyletswydd ar rai lleoliadau y tu allan i'r ysgol i rannu gwybodaeth lle maent yn bodloni'r meini prawf; proses Gorchymyn Mynychu'r Ysgol fwy effeithlon; a gofyniad am gydsyniad awdurdod lleol cyn y gellir tynnu plentyn sy'n destun ymchwiliadau amddiffyn plant (o dan adran 47 o Ddeddf Plant 1989) neu gynllun amddiffyn plant o'r ysgol i gael ei addysgu yn y cartref. Bydd awdurdodau lleol hefyd yn gallu gofyn am gyfarfod â'r teulu ac i weld a siarad â'r plentyn – y bwlch canolog na allai canllawiau ar eu pen eu hunain ei gau.

Nid yw pob darpariaeth yn trosi'n glir i gyd-destun Cymru – nid oes gan adran 17, er enghraifft, gyfwerth uniongyrchol yng nghyfraith Cymru, sy'n defnyddio cynlluniau gofal a chymorth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Bydd y rhan fwyaf o'r manylion yn dilyn mewn deddfwriaeth eilaidd a chanllawiau, yn amodol ar ymgynghoriad cyhoeddus cyn i'r mesurau ddod i rym. Bydd y gweithrediad yn rhedeg yn ôl ei amserlen ei hun yng Nghymru. Fodd bynnag, mae ADSS Cymru yn barod i gyfrannu.

## Meysydd ar gyfer Deialog Gynnar

Mae ADSS Cymru yn croesawu deialog gynnar â llywodraeth newydd Cymru a chyda aelodau o bob plaid a'r pwyllgor Senedd perthnasol, i archwilio nodau cyffredin ac i sicrhau bod y mesurau diogelwch newydd yn cael eu gweithredu yng Nghymru mewn ffordd sy'n effeithiol ac yn ymarferol ac sydd â'r adnoddau priodol. Bydd cefnogaeth drawsbleidiol yn ganolog i wneud hyn yn iawn.

Dim ond rhan o'r ateb yw cofrestr. Mae cadw plant yn weladwy ac yn ddiogel yn dibynnu ar ddull amlasiantaeth gwirioneddol, lle mae pob partner, ym maes iechyd, mewn llywodraeth leol, yn yr heddlu ac ym maes cyfiawnder troseddol, yn rhannu cyfrifoldeb lle bynnag y daw teuluoedd i gysylltiad â gwasanaethau cyhoeddus. Mae aelodau ADSS Cymru wedi dadlau ers tro bod yn rhaid i'r pwyntiau cyswllt hyn gyfrif a bod angen cynllunio gweithredu'r dyletswyddau newydd i ddenu partneriaid yn hytrach na bod yn gyfrifoldeb yr awdurdodau lleol yn unig.

Mae mwyafrif helaeth y teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref yn gwneud hynny am resymau cadarnhaol ac yn darparu addysg ragorol. Nid yw'r achos dros gofrestr a mesurau diogelwch cryfach yn achos yn erbyn addysg yn y cartref. Mae'n achos dros sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn hysbys ac yn ddiogel – ac mae tymor newydd y Senedd yn gyfle i aelodau ar draws y Senedd, gan weithio gyda llywodraeth newydd Cymru, wireddu'r sicrwydd hwnnw.

## Ffynonellau Allweddol

Adroddiad CASCADE: Adolygiad seiliedig ar dystiolaeth o'r peryglon i blant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu gartref, NISB, Hydref 2017

Adolygiad Ymarfer Plant CYSUR: Dylan Seabridge, 2016

Surrey Safeguarding Children Partnership, Child Safeguarding Practice Review: Sara Sharif, Tachwedd 2025

Llythyr ADSS Cymru at y Gweinidog Addysg, Awst 2020 | Ymateb i Ymgynghoriad ADSS Cymru: Canllawiau Statudol Addysg yn y Cartref, Hydref 2019

Datganiad ar y cyd CCAC, AWHoCS ac ADSS Cymru ar addysg ddewisol yn y cartref, 2021

Comisiynydd Plant Cymru, Adolygiad o Swyddogaethau Llywodraeth Cymru mewn Perthynas ag Addysg Ddewisol yn y Cartref, Chwefror 2021

Safbwynt Polisi Addysg Ddewisol yn y Cartref Comisiynydd Plant Cymru (cyrchwyd Mai 2026)

Llywodraeth Cymru, Canllawiau Addysg Ddewisol yn y Cartref (statudol), Mai 2023

Llywodraeth Cymru, Disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol: Medi 2024 i Awst 2025, Awst 2025

Deddf Llesiant Plant ac Ysgolion 2026 (Cymru a Lloegr)

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Deddf Addysg 1996

ADSS Cymru yw Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, y corff arweinyddiaeth broffesiynol ar gyfer cyfarwyddwyr ac uwch-reolwyr gwasanaethau cymdeithasol ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

**Am ragor o wybodaeth:**
ADSS Cymru, Uned Fusnes, Tŷ Antur, Parc Navigation, Abercynon, CF45 4SN